



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cyflwyno Archwilwyr Meddygol

Mehefin 2018

Rhagair y Gweinidog

Mae'n fwriad gan Lywodraeth y DU gyflwyno diwygiadau i'r drefn o ardystio marwolaethau yng Nghymru a Lloegr a chyflwyno swyddogaeth newydd Archwilydd Meddygol i graffu ar yr holl farwolaethau nad ydynt yn cael eu cyfeirio at Grwner. Bydd hyn yn sicrhau y bydd person annibynnol yn craffu ar yr holl farwolaethau yng Nghymru a Lloegr. Rwy'n croesawu'r newidiadau arfaethedig hyn gan fod y system o ardystio marwolaethau yn y DU wedi aros yr un fath ers dros 60 mlynedd ac mae amrywiol adroddiadau megis Trydydd Adroddiad Ymchwiliad Shipman a gyhoeddwyd yn 2003 ac Ymchwiliad Francis i Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Canol Swydd Stafford wedi gwneud argymhellion ynghylch craffu annibynnol ar farwolaethau a'r angen i gynnwys teuluoedd y rhai sydd wedi cael profedigaeth.

Er nad yw'r rhan fwyaf o faes ardystio marwolaethau wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am weithredu'r trefniadau arfaethedig yn ymarferol yng Nghymru.

Ym mis Tachwedd 2016, yn dilyn ymgynghoriad troswaol Llywodraeth y DU ar y diwygiadau arfaethedig i Ardystio Marwolaethau yng Nghymru a Lloegr yn gynharach y flwyddyn honno, cyhoeddais ymgynghoriad yn egluro'r trefniadau arfaethedig ar gyfer Cymru. Gofynnai hwn am farn ynglŷn â'r ddau gasgliad gwahanol o reoliadau lle mae gan Weinidogion Cymru bwerau yn ymwneud â phenodi archwilwyr meddygol, a'r ffioedd i'w codi am graffu a chadarnhau achos meddygol y farwolaeth gan Archwilydd Meddygol.

Hoffwn ddiolch i'r unigolion a'r sefydliadau a gymerodd ran ac a roddodd eu barn a'u hawgrymiadau. Rhydd yr adroddiad hwn grynodedig o'r prif themâu a safbwyntiau a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad yng Nghymru.

Rwy'n cadw mewn cof ei bod dros ddeunaw mis ers cynnal yr ymgynghoriad hwn. Yn y cyfamser, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr wedi ystyried yr ymateb i'w hymgyngghoriad hi ei hun; ynghyd ag adborth gan safleoedd peilot yr Archwilydd Meddygol ac Ymddiriedolaethau'r GIG sydd wedi mabwysiadu dull o fath Archwilydd Meddygol i gefnogi eu gwaith ar y fenter *Dysgu oddi wrth Farwolaethau* yn Lloegr. Mae hyn wedi arwain at gynlluniau diwygiedig ar gyfer y ffordd y caiff Archwilwyr Meddygol eu cyflwyno yng Nghymru a Lloegr a dyna'r rheswm pam y bu'r oedi cyn cyhoeddi ymateb yr ymgynghoriad hwn.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb i'w hymgyngghoriad cynharach a sut y mae'n bwriadu symud ymlaen i'w weithredu. Dylid darllen yr adroddiad hwn felly ochr yn ochr â'r ymateb hwnnw.

Rhoddir dolen gyswllt yma i hwyluso cyfeirio ato:

<https://www.gov.uk/government/consultations/death-certification-reforms>

Yn awr, gan fod gennym gyfeiriad clir ynghylch y trefniadau arfaethedig byddwn yn sefydlu Bwrdd Gweithredu ar gyfer Cymru i hyrwyddo cyflwyno'r mesurau dros dro a, maes o law, gwneud cynnydd gyda'r diwygiadau deddfwriaethol sydd eu hangen.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r rhanddeiliaid amrywiol yng Nghymru i siapio a chyflawni'r trefniadau newydd, fydd yn adeiladu ar fentrau sydd eisoes yn eu lle ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru, gan gynnwys ein proses o adolygu marwolaethau. Bydd y mesurau ychwanegol hyn yn sicrhau gwelliant yn y gwasanaeth a gynigir i bobl mewn profedigaeth

ac, yn y tymor hirach, drwy fwy o gywirdeb yn y wybodaeth a gofnodir am achosion marwolaethau, byddant yn dod â gwelliannau i mewn i'r gwaith o gynllunio a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal o safon.

Vaughan Gething AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhagarweiniad

Gosodwyd y sail gyfreithiol ar gyfer y trefniadau newydd i ardystio marwolaethau a chreu swydd newydd yr archwilydd meddygol gan Ddeddf y Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

Bu Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar gynigion manwl ar gyfer y system newydd o ardystio marwolaethau yng Nghymru a Lloegr o 10 Mawrth hyd 16 Mehefin 2016.

Er nad yw'r rhan fwyaf o faes ardystio marwolaethau wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am sicrhau y bydd unrhyw drefniadau newydd yn cael eu gweithredu'n ymarferol yng Nghymru a bydd ganddynt bwerau i wneud rheoliadau mewn dau faes gwahanol:

- Telerau penodi, tâl, hyfforddiant a swyddogaethau ychwanegol archwilwyr meddygol; a
- Y ffioedd fydd yn daladwy i fwrdd iechyd lleol am dystysgrif yr archwilydd meddygol neu gadarnhad archwilydd meddygol o achos marwolaeth a ddatganwyd ar dystysgrif ymarferwr oedd yn gweini ar yr ymadawedig.

Ar 7 Tachwedd 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymgynghoriad ar "Cyflwyno Archwilwyr Meddygol yng Nghymru". Diben yr ymgynghoriad oedd gofyn am safbwyntiau ar y trefniadau gweithredu arfaethedig a'r rheoliadau drafft ar gyfer Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg drwy'r ymgynghoriad, gan gynnwys yr ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd, ymgysylltu a ddigwyddodd mewn cyfarfodydd amrywiol a fynychwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a digwyddiadau a gynhaliwyd yn 2016/17. Fel gydag unrhyw ddogfen gryno, nid oes modd cyfleu pob sylw unigol a dderbyniwyd ond rydym wedi ceisio cyflwyno barn gytbwys a gobeithio y bydd mwyafrif yr atebwyr yn gweld rhai o'u sylwadau o leiaf yn cael eu hadlewyrchu yn y themâu a gyflwynir yn y ddogfen. Ni fu ymgais o gwbl i bwysu a mesur yr atebion a dderbyniwyd o blaid unrhyw sefydliad nac unigolyn.

Yn yr adroddiad hwn, rhoddir dadansoddiad manwl o'r themâu a nodwyd mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Mae'n bwysig nodi'r newidiadau a wnaed gan Lywodraeth y DU ers i'r ymgynghoriad ddod i ben. Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau dull dau gam gyda threfniant Archwilydd Meddygol dros dro yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 2019, cyn ei weithredu'n llawn yn statudol yn ddiweddarach.

I grynhoi, mae ymateb Llywodraeth y DU i'w hymgynghoriad yn sefydlu dull o gyflwyno system archwilwyr meddygol anstatudol, lle bydd archwilwyr meddygol yn cael eu penodi o fewn y GIG, heb gyflwyno ffi newydd ar hyn o bryd. Bydd dau gam mewn ariannu'r system o Archwilwyr Meddygol er mwyn ei gwneud yn bosibl cyflwyno'r system tra mae'r ddeddfwriaeth yn dal i fynd rhagddi. I ddechrau bydd archwilwyr meddygol yn cael eu hariannu drwy'r ffi bresennol am gwblhau ffurflenni amlosgi meddygol ynghyd ag arian y llywodraeth ganolog am waith archwilydd meddygol nad yw wedi ei gynnwys yn y ffioedd hynny.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu diwygio Deddf y Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, pan fydd y cyfle'n codi i osod system yr archwilwyr meddygol ar sail statudol.

Caiff Adran 18 o reoliadau Deddf y Crwneriaid a Chyfiawnder ei chychwyn, fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr meddygol adrodd am farwolaethau wrth y crwner, y bydd cyfrifoldeb ar y crwner i edrych i mewn iddynt, ynghyd ag Adran 21 i'w gwneud yn bosibl penodi Archwilydd Meddygol Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr.

Y Cyfnod Ymgynghori

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o 10 wythnos a daeth i ben ar 13 Ionawr 2017. Byrhawyd y cyfnod ymgynghori 12 wythnos arferol o ddwy wythnos, oherwydd bod yr Adran lechyd wedi ymgynghori ar y prif gynigion troswaol. Roedd yr ymgynghoriad cynharach gan yr Adran lechyd yng Nghymru a Lloegr, oedd wedi ei gynnal dros gyfnod o dri mis, hefyd wedi ysgogi trafodaethau ynghylch yr hyn fyddai'n digwydd yng Nghymru.

Derbyniwyd cyfanswm o 39 o atebion ysgrifenedig. Fe wnaeth rhai categorïau o atebwyr gyflwyno atebion cyffelyb oedd yn mynegi syniad safonol. Ceir tabl yr ymatebwyr yn Atodiad A.

Hysbyswyd yr atebwyr y byddai'r ymateb yn cael ei gyhoeddi, ynghyd ag enw'r atebwr, oni fyddent yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gael bod yn ddienw. Mae testun llawn yr holl atebion wedi ei gyhoeddi a gellir peri ei fod ar gael os gofynnir.

Yn ogystal â dadansoddi'r atebion ysgrifenedig a dderbyniwyd, rhoddodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyflwyniadau i grwpiau proffesiynol a chyfarfodydd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ceir rhestr o'r cyfarfodydd a fynychwyd yn Atodiad B. Fe wnaeth swyddogion hefyd gynnal gweithdy mapio proses i'r GIG a rhanddeiliaid allweddol ar 13 Ionawr. Roedd cyfanswm o 50 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad. Bu'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau hyn yn gymorth i lawer o unigolion a sefydliadau lunio eu hatebion ysgrifenedig. Cafodd y sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr yn y gweithdy mapio proses eu cofnodi a'u grwpio dan themâu.

Negeseuon ehangach

Yn ogystal â mynd i'r afael â'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad, fe wnaeth llawer o'r rhai a atebodd yr ymgynghoriad sylwadau ar feysydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad yng Nghymru, ac fe wnaeth eraill ailymweld â materion oedd wedi cael eu penderfynu o'r blaen. Roedd y sylwadau hyn yn ymwneud â'r meysydd hynny nad ydynt wedi eu datganoli i Weinidogion Cymru, ond oedd wedi eu cynnwys yn ymgynghoriad yr Adran lechyd "*Introduction of Medical Examiners and Reform of the Death certification in England and Wales*", a gynhaliwyd rhwng 10 Mawrth a 16 Mehefin 2016.

Anfonwyd y sylwadau ar yr agweddau ehangach hyn ar y diwygiadau i'r Adran lechyd er gwybodaeth iddynt.

Meysydd o gytundeb bras a nodwyd yn yr atebion

Ceir dadansoddiad manwl o'r holl faterion a nodwyd, fesul cwestiwn, yn yr adran nesaf. Ar y cyfan roedd cefnogaeth fras i holl egwyddorion cyffredinol yr ymgynghoriad.

- Ystyrid bod y dull Unwaith i Gymru oedd yn golygu un dull sengl yn synhwyrol ac yn gost effeithiol ac y byddai'n sicrhau cynllunio a chyd-drefnu'r gwasanaeth newydd yn iawn;
- Sicrhau system dryloyw sy'n ffitio o fewn y trefniadau llywodraethu clinigol presennol ar gyfer GIG Cymru;

- Cefnogi datblygiad gwasanaeth a gwella ansawdd; a
- Alinio'r trefniadau newydd â systemau presennol, gan leihau'r posibilrwydd o ddyblygu a'r angen am fentrau newydd yn enwedig ym maes data a gwybodaeth.

Daeth y meysydd allweddol canlynol i'r amlwg fel y rhai lle y rhoddwyd y mwyaf o sylwadau a chefnogaeth, fydd yn ddefnyddiol i'n cynorthwyo i ddatblygu ein cynigion ymhellach:

- Cynnig o Gydbwyllgor i reoli gwasanaeth yr Archwilwyr Meddygol;
- Y dylai gwasanaeth yr Archwilwyr Meddygol gael ei weld i fod yn annibynnol er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd a gwasanaeth effeithiol;
- Dylai gwasanaeth yr Archwilwyr Meddygol a'r ddogfennaeth fod yn ddwyieithog.

Datblygir gwaith yn y dyfodol ar y meysydd hyn drwy ddatblygu fframwaith weithredol ac, ymhen amser, deddfwriaethol. Bydd yr atebion manwl ac ymarferol, lluosog, ynghylch gweithredu'r trefniadau newydd yng Nghymru yn fodd i lywio'r Bwrdd Gweithredu Archwilwyr Meddygol dan arweiniad y GIG.

Fel o'r blaen, a hyd nes y daw y system dros dro newydd yn weithredol, byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr ar faterion sy'n gofyn am ddatrysiadau Cymru a Lloegr megis dogfennaeth, hyfforddi a recriwtio, trefniadau TG a chydweithio ar draws y ffin.

Dadansoddiad manwl o themâu atebion yr ymgynghoriad

Roedd Pennod 1 o ddogfen yr ymgynghoriad yn rhoi'r cefndir i'r diwygiadau a'r cyd-destun arbennig yng Nghymru mewn perthynas â'r rhaglen ar gyfer Adolygiadau Marwolaethau a'r iaith Gymraeg. Gofynnai am farn ynghylch pa effeithiau y byddai cyflwyno'r diwygiadau yn eu cael ar y cyfleoedd i bobl yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg a derbyn y gwasanaeth yn eu dewis iaith.

Gofynnai Cwestiwn 1:

Oes yna unrhyw faterion cysylltiedig â'r defnydd o'r Gymraeg yr ydych chi'n teimlo y dylid eu hystyried wrth inni symud ymlaen i weithredu'r cynllun gyda'r GIG yng Nghymru?

Themâu'r atebion oedd:

- Dylai teuluoedd gael dewis yr iaith sydd orau ganddynt
- Dylai Archwilwyr Meddygol a Swyddogion Archwilwyr Meddygol dwyieithog fod ar gael a/neu gael mynediad at wasanaethau cyfieithu.
- Dylai dogfennaeth i'w defnyddio gan y cyhoedd fod ar gael yn ddwyieithog.
- Dylid gofyn am gyngor Comisiynydd y Gymraeg i gael gwybod pa safonau ddylai fod yn berthnasol i'r swyddi newydd.
- Roedd yna hefyd deimlad y dylai'r ffurflenni, er mwyn cydraddoldeb, fod ar gael mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg.

Mae trafodaethau'n mynd ymlaen eisoes gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch yr angen am ffurflenni dwyieithog. Bydd y gofynion statudol a'r angen am wasanaeth dwyieithog ymhlith y nodau a gaiff eu hystyried gan y Bwrdd Gweithredu ar gyfer Cymru.

Gofynnai Cwestiwn 2:

Fedrwch chi feddwl am unrhyw fesurau eraill y gellid eu cymryd i ddiogelu annibyniaeth archwilwyr meddygol, ar wahân i'r rhai a ddisgrifiwyd uchod?

Themâu'r atebion oedd:

- Ystyriai pawb a atebodd y cwestiwn hwn fod annibyniaeth yr Archwilydd Meddygol yn egwyddor allweddol wrth ddiwygio a bod annibyniaeth a thryloywder y swydd yn hanfodol.
- Er bod llawer o atebwyr yn ystyried bod sicrwydd annibyniaeth glinigol Archwilwyr Meddygol yn Neddf 2009 a'r rheoliadau drafft yn rhoi diogelwch digonol, roedd rhai o blaid cael mesurau ychwanegol megis y dylai Archwilwyr Meddygol wasanaethu ysbyty neu fwrdd iechyd gwahanol i'r un yr oeddent yn gweithio ynddo ac na ddylai fod ganddynt unrhyw gysylltiad â'r tîm oedd wedi bod â rhan yng ngofal yr ymadawedig.
- Meddyliai rhai atebwyr fod annibyniaeth Archwilwyr Meddygol yn egwyddor sylfaenol ac y dylai'r Archwilwyr Meddygol fod ar wahân i'r Byrddau Iechyd Lleol ac y dylai'r swydd ddod o dan Wasanaeth y Crwner neu gael ei goruchwyllo gan awdurdodau lleol fel yn Lloegr.

Rhoddir yr ystyriaeth ddyladwy i'r sylwadau a dderbyniwyd ar gyfer y cwestiwn hwn yn y trefniadau dros dro a gaiff eu sefydlu yng Nghymru a'u hadlewyrchu yn rheoliadau terfynol yr Archwilwyr Meddygol.

Gofynnai Cwestiwn 3:

Ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau neilltuol o ran sefydlu cydbwyllgor o'r byrddau iechyd i reoli gwasanaeth yr archwilwyr meddygol yng Nghymru?

Themâu'r atebion oedd:

- Nid oedd gwrthwynebiad i gydbwyllgor o'r byrddau iechyd i reoli gwasanaeth yr Archwilwyr Meddygol. Credai'r mwyafrif ei fod yn synhwyrol i gael gwasanaeth Cymru Gyfan a allai ei gwneud yn bosibl rheoli gwasanaeth yn effeithiol yn ystod absenoldeb a symud staff ac adnoddau, cael prosesau safonol ar gyfer recriwtio a hyfforddi staff a threfniant a fyddai'n sicrhau cysondeb, hyblygrwydd ac arbedion maint.
- Byddai trefniant y cydbwyllgor, drwy wahanu rheolaeth a goruchwyliaeth gwasanaeth yr Archwilwyr Meddygol oddi wrth Fyrdau Iechyd Lleol unigol, yn cynyddu canfyddiad y cyhoedd o annibyniaeth yr Archwilydd Meddygol a'r gwasanaeth.
- Byddai angen cael eglurder ynghylch trefniadau llywodraethu'r cydbwyllgor yn ogystal â'r trefniadau monitro a gwerthuso. Er enghraifft, awgrymodd AIC y dylid ystyried argymhellion eu hadolygiad llywodraethu hwy ar y PGIAC (Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru) wrth ddatblygu'r model. Credai atebwyr eraill y dylai'r Cydbwyllgor gael ei oruchwyllo gan Fwrdd oedd yn cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau y tu allan i'r GIG er mwyn pwysleisio annibyniaeth y gwasanaeth. Gofynnodd Cymdeithasau'r Trefnwyr Angladdau yn benodol am

gynrychiolaeth rhanddeiliaid ar y cydbwyllgor arfaethedig. Cafwyd awgrym y dylai Cadeirydd y Bwrdd fod yn annibynnol gyda system benodi annibynnol.

- Gofynnwyd y cwestiwn ai'r cydbwyllgor ddylai hefyd benodi Swyddogion Archwilwyr Meddygol.

Cymerir y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn i ystyriaeth gan y Bwrdd Gweithredu wrth ddatblygu'r trefniadau dros dro a, maes o law, unrhyw ddeddfwriaeth ar wahân fydd ei hangen.

Gofynnai Cwestiwn 4:

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar faterion y gweithlu, neu unrhyw bryderon eraill y byddech yn dymuno eu dwyn i'n sylw?

Themâu'r atebion oedd:

- Yr angen i sicrhau bod nifer digonol o Archwilwyr Meddygol i ddarparu gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos, er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddogfennau gael eu rhoi, i'r farwolaeth gael ei chofnodi ac angladdau fynd yn eu blaen yn brydlon pan fydd yna ofynion diwylliannol penodol neu ofynion eraill.
- Mae recriwtio niferoedd digonol o Archwilwyr Meddygol a Swyddogion Archwilwyr Meddygol sy'n meddu ar y profiad perthnasol a'r statws angenrheidiol yn hanfodol i'r swydd a'r gwasanaeth. Roedd yna bryder y gallai ôl-lenwi sesiynau'r rheiny fyddai wedi eu penodi fel Archwilwyr Meddygol fod yn anodd a derbyn y pwysau presennol ar y gwasanaeth.
- Mae cyflogi'r unigolion cywir yn allweddol a dylent gael eu cyflogi ar sail eu dymuniad i ddarparu gwasanaeth o safon.
- Mynediad prydlon i'r cyhoedd ac asiantaethau eraill gyda threfniadau wrth gefn wedi eu gwneud ar gyfer absenoldeb gwyliau, afiechyd, gwyliau'r banc ac oriau tu allan i oriau swyddfa.
- Mae angen cael lefel gyson o wasanaeth ar gyfer ardaloedd gwledig a threfol. Mae angen mwy o wybodaeth o ran y gwasanaethau sydd i gael eu darparu yn y rhannau gwledig o Gymru.
- Bydd perthynas waith dda â Chrwneriaid a'u staff yn bwysig.
- Mae yna berygl y bydd baich gwaith Crwneriaid yn cynyddu pan fydd Archwilwyr Meddygol yn dechrau cyfeirio achosion atynt.
- Dylai Archwilwyr Meddygol a Swyddogion Archwilwyr Meddygol gael hyfforddiant arbenigol mewn gofal lliniarol a diwedd oes, iechyd meddwl, profedigaeth a sgiliau cyfathrebu.
- Mae tâl priodol i Archwilwyr Meddygol yn hanfodol.
- Mae pryderon y bydd y broses newydd, sy'n gofyn am adrodd am bob marwolaeth, yn creu gwaith ychwanegol i feddygon. Bydd hyn yn effeithio'n anghymesur ar bractisau meddygon teulu sy'n gwasanaethu nifer fawr o gartrefi gofal. Mae yna berygl y bydd cyfran fawr o amser clinigol yn cael ei ddefnyddio i adrodd a pharatoi nodiadau ar gyfer trosglwyddo os na fydd Archwilwyr Meddygol yn cael mynediad at gofnodion meddygol Electronig y Meddygon Teulu.

Cymerir y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn i ystyriaeth gan ffrydiau gwaith priodol y Bwrdd Gweithredu wrth lunio disgrifiadau swyddi'r Archwilwyr Meddygol a Swyddogion yr Archwilwyr Meddygol.

Gofynnai Cwestiwn 5:

Fedrwch chi feddwl am delerau penodi eraill a ddylai gael eu cynnwys yn y rheoliadau?

Themâu'r atebion oedd:

- Bydd angen i Archwilwyr Meddygol gynnal eu cofrestriad, meddu ar gymwysterau priodol a chael hyfforddiant parhaus a rhaid iddynt gael elfen o hyblygrwydd yn eu swydd i sicrhau bod y gwasanaeth yn gyflawn ym mhob rhanbarth lle y gall problemau godi. Mae'n hollbwysig monitro lefelau perfformiad fel y'u heglurwyd yn y canllawiau er mwyn sicrhau bod y rhai a benodwyd i'r swydd yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau.
- Mae'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (GRO) wedi gofyn am gael cymryd rhan mewn hyfforddi er mwyn sicrhau bod y ddogfennaeth a dderbynnir gan Gofrestrwyr yn gyson â'r safonau cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr yn dilyn rhoi'r rheoliadau newydd ar waith.
- Bod yn glir ynghylch llinellau cyfrifoldeb rhwng y Crwner a'r Archwilydd Meddygol a'r modd y gellir datrys gwrthdaro posibl.
- Cyflwyno gofynion datblygiad proffesiynol ffurfiol ac adolygiad cyfoedion a ddylai gael eu cynnwys mewn contractau.
- Dylai swyddogaeth yr Archwilydd Meddygol fod yn destun gwerthusiad ac ailddilysu.
- Darpariaeth ddigonol a chontractau ar gyfer gwasanaeth 7 diwrnod.
- Cynllunio olyniaeth a datblygu sgiliau mewn cydweithwyr iau.

Cymerir y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn i ystyriaeth gan ffrwd waith berthnasol y Bwrdd Gweithredu fel sail i drefniadau recriwtio a phenodi'r Archwilydd Meddygol dros dro a rheoliadau penodi yn y dyfodol.

Gofynnai Cwestiwn 6:

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch tâl i archwilwyr meddygol?

Themâu'r atebion oedd:

Roedd dwy farn yn fras ynglŷn â'r modd y dylid pennu tâl Archwilwyr Meddygol:

- Dylai'r Cydbwyllgor osod tâl Archwilwyr Meddygol ar gyfer Cymru yn unol â strwythur/fframwaith tâl Archwilwyr Meddygol cenedlaethol, penodol, gyda thâl teg a hwnnw'n gysylltiedig â'r ffi gyffredinol a osodwyd ar gyfer Cymru.
- Dylai tâl Archwilwyr Meddygol fod ynghlwm wrth raddfeydd cyflogau meddygol presennol a bod yn gyson â'r rhain er mwyn denu'r ymgeiswyr cywir a thanlinellu annibyniaeth.
- Roedd yna hefyd farn y dylai tâl Archwilwyr Meddygol fod yn gysylltiedig â'r baich gwaith a system gadw.

Cymerir y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn i ystyriaeth gan y Bwrdd Gweithredu fel sail i benodi Archwilwyr Meddygol yn y cyfnod dros dro ac yn ddiweddarach wrth benderfynu rheoliadau ynghylch eu tâl, costau a ffioedd.

Gofynnai Cwestiwn 7:

Oes yna unrhyw swyddogaethau neu feysydd eraill y dylem ystyried eu hychwanegu i'r rheoliadau penodi drafft?

Themâu'r atebion oedd:

- Hyblygrwydd i ychwanegu swyddogaethau eraill at rôl yr Archwilydd Meddygol ymhen amser
- Cael person llewyg annibynnol ar y panel penodi.
- Dylai staff swyddfa'r Archwilydd Meddygol fod yn ddwyieithog.

Cymerir y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn i ystyriaeth gan y Bwrdd Gweithredu i gefnogi datblygu canllawiau gweithredu ac yn sail i broses penodi Archwilydd Meddygol.

Gofynnai Cwestiwn 8:

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch codi a chasglu ffi yr ydych yn teimlo y dylem eu cymryd i ystyriaeth?

Themâu'r atebion oedd:

- Dylai'r Cydbwyllgor bennu'r un ffi ar gyfer Cymru er mwyn cysondeb.
- Roedd Cofrestrwyr yn gryf yn erbyn casglu'r ffioedd ar adeg cofrestru ar y sail nad ffi gofrestru yw'r ffi hon a'r perygl y gallai ffi arwain pobl i beidio â chofrestru marwolaethau;
- Mae Cymdeithasau'r Trefnwyr Angladdau, er bod mwyafrif eu haelodau wedi pleidleisio yn erbyn casglu'r ffi, wedi dweud eu bod yn agored i drafod y pwynt yma. Rydym yn ddiolchgar iddynt am eu parodrwydd i ystyried ymhellach y ffordd ymlaen ar y mater hwn.
- Mae'r GIG yn credu y dylai'r trefniant presennol, lle mae trefnwyr angladdau yn casglu ffioedd amlosgi, barhau dan y trefniadau newydd arfaethedig.
- Awgrymai rhai grwpiau trydydd sector, sy'n gweithio gyda rhieni mewn profedigaeth, na ddylid codi ffioedd yn achos marwolaethau plant.
- Mae angen ymgysylltiad cryf ac ymgynghoriad â'r cyhoedd i hysbysu a thynnu sylw'r cyhoedd at y newidiadau arfaethedig.

Yn ystod y cyfnod dros dro, ni chyflwynir ffioedd newydd. Mae Llywodraeth y DU yn cyflwyno dau gam i ariannu system yr Archwilwyr Meddygol er mwyn medru cyflwyno'r system tra mae'r ddeddfwriaeth yn symud yn ei blaen. I ddechrau, caiff Archwilwyr Meddygol eu hariannu drwy'r ffi bresennol am gwblhau ffurflenni amlosgi meddygol ynghyd ag arian gan y llywodraeth ganolog. Wedi i'r broses ddod yn un statudol, caiff atebion dan y thema hon eu hystyried ymhellach.

Ym mis Tachwedd 2017 cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru eithriad yn achos ffioedd claddu awdurdod lleol ac amlosgi yn achos marwolaethau plant. Mae Llywodraeth y DU wedi

cynnig, y dylai marwolaethau plant i gyd (hyd at 18 mlwydd oed) o hyn ymlaen fod wedi eu heithrio o'r costau cysylltiedig â system yr Archwilwyr Meddygol gan gynnwys ffioedd y ffurflen amlosgi bresennol.

Fe wnaethom ofyn a oedd gennych unrhyw sylwadau ychwanegol:

Themâu'r atebion oedd:

- Yr angen i'r gwasanaeth fod yn electronig.
- Rhaid i'r system fod yn gyflym ac yn ymatebol.
- Roedd yna bryderon y byddai mwy o oedi cyn rhyddhau cyrff.
- Mae trafodaeth rhwng yr holl randdeiliaid yn hanfodol.
- Rhaid i'r broses o benodi Archwilwyr Meddygol fod yn un sy'n ennill hyder y cyhoedd.
- Dylid egluro'r cyswllt ag adolygiadau marwolaethau.
- Fyddai Archwilwyr Meddygol yn cael mynediad at indemniad a ddarperir gan Gronfa Risg Cymru neu a fyddai gofyn iddynt hwy, neu'r Byrddau Iechyd Lleol, wneud eu trefniadau eu hunain?

Mae Llywodraeth y DU yn hyrwyddo datblygiad systemau TG electronig ledled Cymru a Lloegr i gefnogi trefniadau'r Archwilwyr Meddygol.

Bydd y sylwadau ychwanegol a gyflwynwyd yn sail i waith ffrydiau gwaith amrywiol y Bwrdd Gweithredu.

Y camau nesaf

Mae'n hanfodol yn awr sefydlu'r Bwrdd Gweithredu ar gyfer Cymru a'i weithgorau fel y cyfeiriwyd atynt drwy'r adroddiad hwn. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r holl sylwadau ac awgrymiadau defnyddiol a dderbyniwyd ddylanwadu ar y trefniadau gweithredu i osod y system newydd hon yn ei lle Caiff y Bwrdd Gweithredu ei arwain gan y GIG a'r gobaith yw y bydd yr holl randdeiliaid yn parhau i chwarae rhan adeiladol wrth weithio gyda'i gilydd i gyflwyno gwasanaeth newydd yr Archwilwyr Meddygol er budd pobl Cymru.

Yng Nghymru, cyflwynir y trefniadau newydd mewn tandem gyda Lloegr, gan ddechrau ym mis Ebrill 2019.

Atodiad A

Atebion yr Ymgynghoriad

Math o atebwr	Nifer
Unigolion	4
Llywodraeth Leol	12
Prifysgolion a Chyrff Academaidd	1
Pleidiau Gwleidyddol/grwpiau undeb	1
Grwpiau a chymdeithasau gweithwyr iechyd proffesiynol	6
Cyrff y GIG	4
Adrannau'r Llywodraeth/asiantaethau	1
Llais y dinesydd/trydydd sector/Comisiynwyr	3
Mentrau cymdeithasol/busnes	5
Gweithwyr proffesiynol y gyfraith ac eraill	2
Cyfanswm	39

Atodiad B

Grwpiau proffesiynol yr ymwelwyd â hwy:

9 Medi 2017	- Cyfarfod Bwrdd Crwn y GIG
20 Hydref 2016	- Digwyddiad Adolygu Marwolaethau 1,000 o Fywydau
14 Tachwedd 2016	- Ffrwd Waith Profedigaeth Grŵp Adolygu Evans
2 Rhagfyr 2016	- Grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan
15 Rhagfyr 2016	- Bwrdd Diwedd Oes
16 Rhagfyr 2016	- Grŵp Penaethiaid Gofal Sylfaenol
12 Ionawr 2017	- Fforwm Cenedlaethol Ansawdd a Diogelwch
20 Ionawr 2017	- Grŵp Cyfarwyddwyr Nyrsio Cymru Gyfan